

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

25.09.17 yn y Swyddfeydd Dinesig, Pen-y-bont ar Ogwr

Presennol	Sefydliad
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Claire Evans	Heddlu De Cymru
Daron Herbert	Cyfoeth Naturiol Cymru
Darren Mepham	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Eirian Evans	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Helen Matthews	Adran Gwaith a Phensiynau
Joanne Abbot-Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Mark Brace	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Sandra Husbands	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Steve Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Hefyd yn bresennol	
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Judith Jones	Tîm Cymorth Partneriaeth
Gaynor Griffiths	Tîm Cymorth Partneriaeth
Ymddiheuriadau	
Cllr Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
David Bebb	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Martin Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Hughes	AWEN
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Eitem Agenda	Sylwadau	Cam Gweithredu
1	Croeso a Chyflwyniadau	
1.1	Croesawodd DM bawb i'r cyfarfod a gofynnodd am gyflwyniadau. Cofnodwyd yr ymddiheuriadau yn unol â'r uchod.	
2	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 24 Gorffennaf a Materion sy'n Codi	
2.1	Darllenwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir	
2.2	Materion sy'n codi: Nid oedd unrhyw faterion sy'n codi nad ydynt ar yr agenda	
3	Adolygiad o brosiect Cwm Llynfi 20	
3.1	Cyfeiriodd DM yr aelodau at y papur adolygu prosiect Cwm Llynfi 20 a ddisbarthwyd yn flaenorol	

3.2	Ar ôl trafodaeth, cytunwyd y dylai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod gwerth y gwaith a wnaed eisoes, ond na fyddai'n mabwysiadu LV20 yn flaenoriaeth strategol wrth symud ymlaen	
3.3	Yn hytrach, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i Gwm Llynfi a mannau eraill yn y sir er mwyn gallu gweithredu ymyraethau system gyfan	
4	Plant a Phobl Ifanc a'r 1000 Diwrnod Cyntaf	
4.1	Cyfeiriodd AF at y papur a ddsbarthwyd yn flaenorol a rhoddodd gyflwyniad byr ar waith y grŵp Gorchwyl a Gorffen Plant a Phobl Ifanc a sefydlwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mawrth 2017	
4.3	Sefydlwyd y grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn ystyried ehangder yr ymyraethau sydd ar waith neu sydd wedi'u cynllunio sydd â'r nod o roi sylw i lesiant plant a phobl ifanc, gan osgoi Profiadau Plentyndod Andwyol neu drwy ddatblygu'r gwytnwch mewn plant a phobl ifanc i ymdopi/gwella yn dilyn profiadau plentyndod andwyol	
4.4	Ar yr un pryd, gofynnwyd i Ben-y-bont ar Ogwr fod yn rhan o'r rhaglen gydweithredol 1000 diwrnod cyntaf, sef rhaglen o welliannau i'r system gyfan er mwyn gwella canlyniadau. Cynhaliwyd digwyddiad mapio'r system ym Mhen-y-bont ar Ogwr.	
4.5	Rhoddodd AF ddarlun cyffredinol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r digwyddiad. Roedd naw deg chwech o bobl yn bresennol yn y digwyddiad. Roedd y rhain yn fydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, ac yn swyddogion tai, heddlu ac ati.	
4.6	Mireiniodd y grŵp gorchwyl a gorffen y cynigion gwreiddiol ar gyfer yr Amcanion Llesiant a ddatblygwyd gan Grŵp Cynllunio y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys Profiadau Plentyndod Andwyol, y 1000 diwrnod cyntaf, beichiogrwydd yn yr arddegau, ac ati.	
4.7	Roedd y grŵp Gorchwyl a Gorffen Plant a Phobl Ifanc o'r farn y byddai angen i'r rhaglen neu fwrdd y prosiect oruchwylio'r holl weithgarwch a fydd yn cyfrannu at yr amcan cyffredinol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Y grŵp fyddai'r unig bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynglŷn â gweithgarwch sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y sir, a bydd yn darparu cyfleoedd i uno ac osgoi dyblygu gwaith. Awgrymodd AF fod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus feddwl am sut y bydd yn goruchwylio gweithrediad yr amcanion, gallem ni roi prawf ar y dull hwn a awgrymwyd. Soniodd hefyd am y potensial i'r Bwrdd ymuno â'r Cydweithrediad 1000 diwrnod cyntaf	
4.8	Dywedodd JAD wrth y bwrdd fod y ddau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn rhan o'r gweithgareddau cwmpasu ar gyfer y 1000 diwrnod cyntaf ac y byddai cael tri bwrdd plant a phobl ifanc yn gwneud pethau tebyg i'w gilydd yn creu problem. Mae perygl o ddyblygu aelodaeth grwpiau presennol. Nododd AD hefyd fod angen i unrhyw waith fod yn berthnasol i'r dyfodol yn sgil y broses ddarparu gwasanaethau yn rhanbarthol	
4.9	Roedd aelodau sy'n mynychu mwy nag un bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn cytuno bod perygl o fod â gormod o waith.	
4.10	Crynhodd DM y drafodaeth trwy ofyn i'r grŵp ddod i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd â chynllun sy'n nodi canlyniadau, y camau y mae angen eu cymryd, amserlenni a'r adnoddau sydd eu hangen. Byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i drefniadau llywodraethu bryd hynny.	

	Cam gweithredu: Cynllun â chanlyniadau/amserlen ac adnoddau i'r Bwrdd ar 27.11.2017	AF
5	Cynnig i Asesu'r Berthynas rhwng iechyd a lles a pherfformiad gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr	
5.1	Rhoddodd JAD, gyda chymorth gan SH ac AD, ddarlun cyffredinol o'r papur a ddsbarthwyd yn flaenorol.	
5.2	Byddai'r astudiaeth arfaethedig yn ymchwilio i gyfeiriad a graddau'r berthynas rhwng iechyd a pherfformiad gwaith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Cost o oddeutu £50,000.	
5.3	Ar ôl trafodaeth, roedd yr aelodau o'r farn bod cwmpas yr astudiaeth arfaethedig yn rhy gul, ac nad oedd yn union yr hyn yr oedd y Bwrdd wedi gofyn amdano. Byddai gan aelod sefydliadau resymau amrywiol dros absenoldeb, e.e. mae'n bosibl y byddai problemau penodol i wasanaethau 'goleuadau glas'. Byddai gan lawer o aelodau ymyraethau ar waith ac arferion da y gellid eu rhannu. Cam gweithredu: Rhoi'r gorau i'r astudiaeth am y tro. SHG i adrodd yn ôl i Brifysgol Abertawe Cam gweithredu: PABM i ymgynnull grŵp i rannu arferion da o ran ymyraethau ar gyfer salwch ac absenoldeb. JAD i'w drefnu.	SHG JAD
6	Prentisiaethau a Sgiliau	
6.1	Cyfeiriodd SP at y papur a ddsbarthwyd yn flaenorol. Dymunai fynegi ei ddiolch i Matt Williams yng Ngholeg Penybont am ei gymorth gyda'r gwaith hwn.	
6.2	Rhoddodd SP rywfaent o gefndir i'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Sgiliau a Phrentisiaethau. Cydnabu'r grŵp yn gynnar fod y bwlch sgiliau yn her wirioneddol i boblogaeth oedran gwaith Pen-y-bont ar Ogwr.	
6.3	Canolbwyntiodd y grŵp ar sut y gallai aelod sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus chwarae rhan mewn cau'r bwlch sgiliau trwy hyfforddi a gwella sgiliau'r gweithlu sector cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.	
6.4	Gofynnodd SP i'r Bwrdd ystyried argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen a'u trafod yn y gweithdy a rhoi ystyriaeth i'w cynnwys yn y cynllun llesiant	
6.5	Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn ynglŷn â recriwtio i brentisiaeth ar y cyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Er nad oedd modd i'r holl aelodau gymryd rhan oherwydd trefniadau/prosesau cenedlaethol, cytunwyd i ystyried hyn yn rhan o'r cynllun.	
7	Amcanion Llesiant/Cynllunio Gweithdy	
7.1	Rhoddodd YS gyflwyniad byr ar yr amcanion llesiant drafft a ddatblygwyd hyd yn hyn	
7.2	Gofynnodd YS i'r bwrdd rannu'n dri grŵp i fireinio'r tri amcan a drafodwyd yn flaenorol ac ystyried yr amcan 4 newydd.	
7.3	Cam gweithredu: Amcanion diwygiedig ac wedi'u mireinio i gael eu dosbarthu i'r Bwrdd er mwyn eu cymeradwyo	JJ
8	Unrhyw Fusnes Arall	
8.1	Cam gweithredu: Dosbarthu eitemau unrhyw fusnes arall i'r aelodau er gwybodaeth	JJ